# Cyngor Sir Ceredigion

# Cynllun Cydraddoldeb 2024 - 2028



Fersiwn hawdd ei ddarllen o'n Cynllun Cydraddoldeb 2024 i 2028

Cyngor Sir CEREDIGION County Council



Mae ein Cynllun Cydraddoldeb yn esbonio'r hyn y bydd y Cyngor yn ei wneud i sicrhau bod gan bawb Gydraddoldeb a Chyfleoedd Cyfartal.



Mae **cydraddoldeb** yn golygu trin pawb â pharch.

Mae **cyfleoedd cyfartal yn** golygu bod pawb yn cael yr un cyfle i gael y pethau sydd eu hangen arnynt.

**Mae pum rhan i'n Cynllun Cydraddoldeb**

1. **Gweithio i'r Cyngor**
2. **Bod yn ffrindiau ac yn parchu ein gilydd**
3. **Cymryd rhan mewn penderfyniadau**
4. **Yn gallu cael mynediad at wasanaethau**
5. **Addysg**

# 1 Gweithio i'r Cyngor



Rydym am i Gyngor Sir Ceredigion fod yn lle teg i weithio.

Byddwn yn sicrhau bod gan bobl o wahanol gefndiroedd gyfle teg i gael swydd yn y Cyngor.




Byddwn yn sicrhau bod pawb yn cael cyfle teg i weithio ym mhob math o swyddi yn y Cyngor.

Byddwn yn hyfforddi ein gweithwyr i drin pobl yn deg ac yn gyfartal.



Byddwn yn gwrando ar y bobl sy'n gweithio yn y Cyngor i wneud yn siŵr ein bod yn bod yn deg.

# 2 Bod yn ffrindiau ac yn parchu ein gilydd



Rydym eisiau i bobl ddod ymlaen yn dda gyda'i gilydd.

Dylai pawb allu byw'n hapus heb fwlio na phobl yn gas.



Byddwn yn falch bod pobl o wahanol gefndiroedd yn byw yng Ngheredigion.

Byddwn yn meddwl am sut y gallai ein penderfyniadau effeithio ar bobl o wahanol gefndiroedd.



Byddwn yn gweithredu'n gyflym os byddwn yn gweld neu'n clywed pobl yn cael eu bwlio oherwydd eu bod yn wahanol.



Byddwn yn dysgu pobl am y pethau da am fyw gyda phobl o wahanol gefndiroedd.

## 3 Cymryd rhan mewn penderfyniadau



Rydym eisiau cynnwys pobl yn y penderfyniadau a wnawn.

Rydyn ni eisiau gweithio gyda phobl o bob cefndir a gwrando arnyn nhw.

Byddwn yn sicrhau bod mwy o bobl o gefndiroedd gwahanol yn cael cyfle teg i wneud penderfyniadau yng Ngheredigion.



Byddwn yn gweithio gyda ac yn gwrando

- Pobl sy'n anabl
- Pobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol
- Pobl sy'n hoyw, lesbiaidd, deurywiol, trawsryweddol neu cwiar



Byddwn yn sicrhau ei bod yn hawdd i bobl ddweud wrthym beth yw eu barn.

Byddwn yn dweud wrth bobl beth fydd yn digwydd nesaf pan fyddant yn dweud wrthym beth yw eu barn am ein cynlluniau.



## 4 Yn gallu cael mynediad at wasanaethau

# 4 Yn gallu cael mynediad at wasanaethau

Rydym yn darparu llawer o wasanaethau gwahanol i bobl.

Rydym am sicrhau nad yw pobl yn cael problemau o ran cael y gwasanaeth y maent ei eisiau gennym ni.



Byddwn yn sicrhau bod pobl yn gallu cael gwasanaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg.



Byddwn yn cynnig sesiynau chwarae, lleoedd meithrin a lleoedd clwb ar ôl ysgol ar gyfer plant anabl.



Byddwn yn dilyn canllawiau cenedlaethol i sicrhau y gall pobl anabl fynd o amgylch ein trefi ac allan yng nghefn gwlad yn hawdd.

# 4 Yn gallu cael mynediad at wasanaethau, parhad...





Byddwn yn sicrhau bod pobl â nam ar eu golwg yn gallu defnyddio ein gwefan.



Byddwn yn ei gwneud hi'n hawdd i bobl gysylltu â ni.



Byddwn yn adeiladu tai sy'n addas i'r bobl sydd angen cartrefi newydd.



Byddwn yn gwirio bod ein toiledau cyhoeddus yn addas ar gyfer y bobl sydd angen eu defnyddio.




Byddwn yn gweithio gydag eraill i'w gwneud hi'n haws i bobl deithio i'r man lle maen nhw eisiau mynd.

# 5 Addysg



Dylai pawb gael mynediad teg a chyfartal at addysg.

Rydym am i bawb deimlo'n hapus ac yn ddiogel yn yr ysgol ac yn y coleg.




Byddwn yn dilyn canllawiau'r llywodraeth ar gefnogi disgyblion trawsryweddol mewn ysgolion.



Byddwn yn ceisio sicrhau bod y bobl sy'n gwneud penderfyniadau mewn ysgolion o'r un math o gefndir â'r disgyblion yn yr ysgol.




Byddwn yn cynnig mwy o gymorth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) fel y gallant wneud yn dda yn yr ysgol.



Byddwn yn dysgu mwy o bobl hŷn a mwy o bobl anabl i fynd ar-lein.

# Edrych i weld bod y cynllun yn gweithio




Mae ein Cynllun Cydraddoldeb yn gynllun am bedair blynedd.



Byddwn yn edrych ar y cynllun bob blwyddyn ac yn gwneud newidiadau iddo pan fydd angen.




Byddwn yn ysgrifennu adroddiad am y gwaith rydym wedi'i wneud ar y cynllun bob blwyddyn.

Os hoffech siarad â rhywun am ein Cynllun Cydraddoldeb:

Tîm Cydraddoldeb a Chynhwysiant
Cyngor Sir Ceredigion
Canolfan Rheidol
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
SY23 3UE

**Ffôn – 01545 570881**

**E-bost – clic@ceredigion.gov.uk**